

# Asesiad o ymateb bywyd gwyllt i'r cyfyngiadau symud Covid-19 yng ngogledd-orllewin Cymru: crynodeb o ganfyddiadau arolwg 2022



## 1. Rhagymadrodd

Yng ngwanwyn 2020, caewyd nifer o safleoedd poblogaidd ar draws gogledd Cymru i'r cyhoedd yn dilyn gweithredu cyfyngiadau symud ledled y wlad mewn ymateb i argyfwng iechyd y Coronafeirws. Caewyd llawer o ardaloedd yn gyfan gwbl i'r cyhoedd, tra bod ardaloedd eraill wedi profi llai o ymweliadau oherwydd natur y cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau teithio. Roedd y gostyngiad hwn mewn traffig dynol yn yr ardaloedd hyn yn gyfle unigryw i werthuso sut mae bywyd gwyllt, tirwedd a llystyfiant yn ymateb i amodau o'r fath. Mewn cyd-destun cenedlaethol, arweiniodd y cyfnod hwn o 'anthro-ennyd', fel y'i gelwir, at lai o lygredd aer a sŵn mewn ardaloedd trefol a alluogodd sŵn cân adar i dreiddio i ardaloedd oedd fel arfer yn llawn sŵn traffig; gydag adroddiadau yn taro'r penawdau bod geifr yn dod i lawr o Ben y Gogarth i dref Llandudno a Llamhidyddion yr Harbwr yn nofio i fyny'r Afon Hafren.

I werthuso sut roedd bywyd gwyllt yn ymateb i'r cyfnod eithriadol hwn ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac ar draws gogledd-orllewin Cymru, comisiynwyd cyfres o arolygon bioamrywiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Mehefin 2020. Edrychodd yr arolygon hyn ar fywyd adar, gweithgaredd mamaliaid, cyflwr llystyfiant a nifer yr achosion o sbwriel ar draws nifer o safleoedd allweddol yng Ngogledd Cymru, a chynhyrchwyd adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 a oedd yn dogfennu'r canfyddiadau. Fodd bynnag, i archwilio'n llawn sut yr effeithiodd cyfnod cloi 2020 ar yr ardaloedd hyn, cydnabuwyd bod angen ail adrodd yr arolygon hyn dros y blynyddoedd dilynol, a fyddai'n galluogi cymhariaeth â blynyddoedd cyferbyniol pan oedd defnydd ymwelwyr o'r ardaloedd hyn wedi ail ddechrau ymweld unwaith eto.

Ar ôl i'r cyfyngiadau symud ledled y wlad gael eu codi ar 6 Gorffennaf 2020, roedd y Parc Cenedlaethol a safleoedd eraill a gynhwyswyd yn yr arolygon hyn yn gwbl agored i'r cyhoedd gyda chanllawiau'r llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol ar waith. Roedd yr hafau canlynol, sef 2020 a 2021, ymhlith y prysuraf yr oedd yr ardal wedi'u gweld ers blynyddoedd lawer, yn enwedig oherwydd y cyfyngiadau ar deithio dramor, a arweiniodd at broblemau fel ciwiau o bobl am hyd at 2 awr i dynnu llun ar ben copa'r Wyddfa ym mis Awst 2020. Bu cynnydd sydyn mewn parcio anghyfreithlon, gwersylla anghyfreithlon, sbwriel a nofio heb ganiatâd, gyda llawer yn teimlo'r angen i ailgysylltu â byd natur ar ôl cyfnod mor hir o gyfyngiadau. Mae tymor ymwelwyr 2022 wedi bod yn llai eithafol o ran nifer yr ymwelwyr, gyda lefel fwy parhaus o ymweliadau yn gyffredinol yn fwy nodweddiadol o flynyddoedd cyn y coronafeirws, ond eto fe welwyd uchafbwyntiau neu adeg brig o bwysau dwys o du ymwelwyr mewn safleoedd potiau mêl, yn enwedig ar safleoedd sy'n agos at, neu gyda mynediad, at ddŵr.

Mae'r tair blynedd gyferbyniol o ran niferoedd ymwelwyr â'r ardal yn gyfle da i gymharu'r data o'r arolygon hyn ac asesu pa effeithiau all fod ar fywyd gwyllt, lefelau sbwriel ac effeithiau cyffredinol ar y dirwedd o fewn y parc cenedlaethol. Mae synthesis o'r canfyddiadau allweddol ar draws y tair blynedd wedi'u hamlinellu mewn dogfen werthuso ar wahân, tra bod adroddiadau blynyddol 2020, 2021 a 2022 i'w gweld ar-lein yn:

<https://eryri.llyw.cymru/gwarchod/gwaith-cadwraeth/bywyd-gwyllt-dan-glo/>

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o ganlyniadau arolwg 2022.



Golygfa o'r darn olaf o Lwybrau trac Llanberis a Llwybr y Mwynwyr i gopa'r Wyddfa ym mis Mehefin 2022.

## 2. Dulliau

### 2.1. Safleoedd astudio a dulliau arolygu

Roedd yr ail arolygon yn cynnwys cyfanswm o saith safle gwahanol ar draws Eryri a gogledd Cymru (ffigur 1): roedd pedwar o'r safleoedd hyn wedi'u lleoli yn yr ardaloedd ucheldirol, mynyddig ac yn cynnwys Yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen, y Carneddau a Chader Idris; tra bod tri safle mewn safleoedd mwy coediog, iseldirol ac yn cynnwys Coed-y-Brenin, Coed Llennyrch a Niwbwrch (Cwningar Niwbwrch). O fewn pob un o'r ardaloedd mawr hyn, cynhaliwyd arolygon ar hyd cyfres o lwybrau trawslun a ddewiswyd yn 2020, a oedd yn dilyn y prif lwybrau troed drwy'r rhanbarthau hyn. Er mwyn caniatáu ar gyfer cael cymariaethau ystyrlon ar draws y tair blynedd, ymwelwyd â'r un llwybrau a phwyntiau arolwg yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r canlyniadau manwl fesul safle yn amlinellu'r union lwybrau a gymerwyd o fewn pob ardal.



Ffigur 1. Map o Ogledd Cymru yn dangos lleoliadau'r saith safle a arolygwyd yn 2020, 2021 a 2022.

Yn fras, roedd yr arolygon ar hyd y llwybrau trawslun hyn yn cynnwys cofnodi adar yn magu / bridio, cyflwr llystyfiant ar hyd llwybrau ac mewn mannau casglu poblogaidd (gan gynnwys delweddau pwynt sefydlog), gweithgaredd mamaliaid a helaethrwydd sbwriel. Cofnodwyd hefyd unrhyw nodiadau ychwanegol neu olygfeydd a oedd yn berthnasol i'r astudiaeth, gan gynnwys pryfed, presenoldeb pobl a gweithgarwch cysylltiedig megis gweryslla, a nodiadau ar lefelau pori yn rhai o'r safleoedd ucheldirol. Roedd GPS llaw yn cael ei gario i farcio unrhyw nodiadau targed defnyddiol a chofnodi'r lleoliad penodol ar gyfer unrhyw bethau prin neu nodedig a welwyd. Cynhaliwyd yr arolygon yn 2022 ar ddeg diwrnod rhwng 12 Mehefin a 4 Gorffennaf 2022 i gwmpasu'r saith safle, ac i ganiatáu ar gyfer mwy nag un trawslun yn rhai o'r safleoedd ucheldir o faint mwy. Lledaenwyd yr arolygon ar draws y cyfnod hwn oherwydd y tywydd cyfnewidiol a'r angen am dywydd priodol i arolygu'r ardaloedd uwch, mwy mynyddig.



Corhedydd y waun gyda gwyfyn gweundir uwchben Llyn Bochlwyd (Dyffryn Ogwen).

## 2.2. Ystyriaethau a chyfyngiadau

Cynlluniwyd dulliau'r arolwg i ganfod newidiadau posibl yn y bywyd gwyllt, y dirwedd a'r cynefinoedd yn yr ardaloedd dethol o ganlyniad i'r cyfnod clo a achoswyd gan covid-19 yn 2020. Fodd bynnag, gyda diffyg data llinell sylfaen cyfatebol i seilio unrhyw gymariaethau arnynt, defnyddiwyd arolygon y ddwy flynedd ddilynol (2021 a 2022) i asesu unrhyw wahaniaethau a welwyd. Mae tair blynedd yn gyfnod cyfyngedig o amser i asesu newidiadau ym mhoblogaethau rhywogaethau adar a chymunedau o lystyfiant, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac yn dilyn amrywiadau tymor hwy mewn niferoedd mewn perthynas ag amrywiaeth o ffactorau (fel amodau tywydd). Fodd bynnag, mae'r arolygon a'r cymariaethau yn dal i ddangos y newidiadau posibl sydd ar y gweill a gellir eu defnyddio fel ffordd o dynnu sylw at faterion neu dueddiadau sy'n haeddu cael eu harchwilio a'u monitro'n agosach. Yn yr un modd, dim ond saith safle ar draws ardal gymharol fawr yr oedd yr arolygon hyn yn eu cwmpasu, ac felly efallai na fydd rhai materion safle-benodol o reidrwydd yn arwydd o newidiadau ar draws yr ardal gyfan. Serch hynny, mae'r canlyniadau isod yn darparu data llawn gwybodaeth ar effeithiau cyfnod eithriadol o amser yn yr ardal eiconig hon o Gymru, a gallant ategu'r arolygon a'r monitro sydd eisoes ar y gweill mewn rhai o'r ardaloedd hyn.

## 3. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol o 2022


Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o arolygon 2022 wedi'u cyflwyno isod, yn gyntaf ar gyfer y pedwar safle ucheldir ac yna ar gyfer y tair ardal iseldir. Gweler yr adroddiadau safle-wrth-safle unigol am gyflwyniad manylach o ganlyniadau'r arolygon hyn.

### 3.1. Ucheldiroedd


#### Bywyd Adar

##### **Llai o niferoedd ac amrywiaeth o fywyd adar**

Am yr ail flwyddyn yn olynol, bu gostyngiad mawr yn niferoedd ac amrywiaeth yr adar sy'n nythu ar draws safleoedd yr arolwg ucheldir o gymharu â 2020 (gweler ffigurau 3 a 4). Roedd cyfanswm nifer yr adar a gofnodwyd yn 2022 20% yn llai nag yn 2020 (1,285 yn gyffredinol yn 2022 o gymharu â 1,609 yn 2020), gyda rhywogaethau cyffredin fel Corhedydd y Ddôl a Thinwen y Garn wedi'u cofnodi mewn niferoedd llawer is. Yn yr un modd, cofnodwyd 16 yn llai o rywogaethau ar draws yr ardal yn 2022 o gymharu â 2020, gan ddangos gostyngiad sylweddol yn amrywiaeth yr adar a ddarganfuwyd yn ystod yr arolygon. Mae'n anodd pennu'r union resymau dros y gostyngiad eang hwn heb ymchwiliad manylach i'r gwahanol newidynnau a allai ddylanwadu ar rywogaethau'n bridio yn yr ardal – effeithiau a allai fod o fewn y tymor bridio a'r tu allan i'r tymor bridio. Mae'r tywydd yn debygol o chwarae rhan fawr, gyda 2020 yn profi gwanwyn anarferol o dawelwch, cynnes a sefydlog a oedd yn cyd-daro â'r cyfnod clo; mewn cyferbyniad, cafwyd gwanwyn oer a hwyr iawn yn 2021 a oedd wedi gohirio tymor bridio adar yr ucheldir o sawl wythnos mewn rhai ardaloedd. Gallai tymor bridio a allai fod yn salach o 2021 o 2021 oherwydd yr amodau hyn fod wedi cael sgil-ffeithiau ar nifer yr adar sy'n dychwelyd i fridio yn 2022. Mae tywydd eithafol o'r fath o un flwyddyn i'r llall yn cael ei brofi'n llawer amlach o ganlyniad i newid hinsawdd a achosir gan bobl, ac felly dylai fod yn ffactor allweddol i'w ystyried wrth sicrhau bod y safleoedd pwysig hyn mor gydnherth â phosibl pan ddaw'n fater o wynebu heriau o'r fath yn y blynyddoedd i ddod.



Ffigur 2. Digonedd yr adar / pa mor doreithiog oedd yr adar a gofnodwyd mewn ardaloedd ucheldirol ar gyfer 2020 (Ilwyd tywyll), 2021 (Ilwyd) a 2022 (Ilwyd gwelw).



Ffigur 3. Amrywiaeth y bywyd adar (h.y. cyfanswm nifer y rhywogaethau) a gofnodwyd mewn ardaloedd ucheldir ar gyfer 2020 (Ilwyd tywyll), 2021 (Ilwyd) a 2022 (Ilwyd golau).

### Adar yn magu / bridio o amgylch llynnoedd bach yr ucheldir

Cynefin targed i'w asesu o fewn yr arolygon adar sy'n magu / bridio oedd y llynnoedd bach ucheldirol sydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ucheldiroedd, megis Llyn Llydaw (Yr Wyddfa), Llyn Idwal (Cwm Idwal) a Llyn Cau (Cader Idris). Yn aml gall y llynnoedd hyn gynnal niferoedd bach o rywogaethau bridio fel Pibyddion Cyffredin, ond mae rhywogaethau o'r fath yn cael eu brawychu gan bresenoldeb pobl ac felly gellir eu haflonyddu'n hawdd os yw ardaloedd o'r fath yn mynd yn rhy brysur yn y tymor bridio. Roedd y golygfeydd ar y llynnoedd hyn yn arolygon 2022 yn cynnwys y

canlynol: pedwar Pibydd Cyffredin ar Lyn Llydaw (Yr Wyddfa), un Pibydd Cyffredin yr un ar Lyn Idwal a Llyn Bochlywd, pâr o Wyachod Bach Cribog yn nythu ar Lyn Idwal (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal), un pâr o Bibydd y Tywod ar Lyn Gafr (Cader Idris) a thri Chyw Hwyaidd Danheddog hefyd ar y llyn hwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i 2021, ond maent wedi'u lleihau o gymharu â 2020. Er enghraifft, gwelwyd wyth Pibydd Cyffredin o amgylch Llyn Llydaw yn ystod 2020, ond hanner y nifer hwnnw arsylwyd arnynt ym mhob un o'r blynyddoedd dilynol. Gellid priodoli hyn i gynnydd mewn aflonyddwch yn dilyn dychwelyd i niferoedd uwch o ymwelwyr. Fodd bynnag, mae presenoldeb Gwyachod Cribog Mawr yn nythu ar Lyn Idwal yn beth cadarnhaol iawn i'w adrodd, unwaith eto, a nododd nad ydynt wedi profi aflonyddwch rhy fawr i'w hatal rhag nythu.



Llyn Llydaw islaw'r Wyddfa, a gymerwyd o Lwybr Watkin wrth ddringo i'r copa.

## Llystyfiant

Nid oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn arolygon 2022 yn ymwneud â newidiadau i llystyfiant ac effeithiau ymwelwyr yn yr ardaloedd a arolygwyd. Roedd unrhyw effeithiau ar llystyfiant oherwydd pwysau ymwelwyr yn ymddangos yn fwy cyfyngedig i lond dwrn o safleoedd casglu poblogaidd, lledu llwybrau troed mewn rhai ardaloedd neu erydiad llwybrau troed mewn mannau eraill. Yn gyffredinol, y prif ffactor sy'n dylanwadu ar y cymunedau llystyfiant yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd ucheldirol hyn yw eu rheolaeth ehangach a'u pori gan ddefaid a da byw. Roedd pwysau o'r fath y tu hwnt i gwmpas yr arolygon hyn, ond fe'u trafodir yn fyr yn y synthesis cyffredinol o'r tair blynedd o arolygon, a gyflwynir mewn dogfen atodol ar wahân.

### **Sathru ac erydiad llwybrau yng Nghwm Llan**

Ar ôl cyfres hynod o brysur o dymhorau ymwelwyr yn dilyn y cyfyngiadau symud yn 2020, un safle sy'n gweld crynhoad arbennig o ymwelwyr yw'r rhaedrau sy'n rhedeg i lawr o Gwm Llan wrth ymyl Lwybr Watkin. Yn 2022, sylwyd bod un llwybr mawr newydd a sawl llwybr llai wedi'u sathru ar draws y caeau fel llwybr byr i gael mynediad i wahanol ardaloedd ar hyd y rhaedrau o Lwybr Watkin. Mae ochrau rhai rhannau o'r ceunant hefyd bellach wedi'u sathru'n drwm gan y pwysau gan

gynifer o bobl sy'n ymweld i ymgasglu ger yr afon a mynd i nofio yma. Er na chynhaliwyd unrhyw arolygon uniongyrchol i asesu effaith y pwysau cynyddol hwn ar gymunedau llystyfiant y safle ar hyd glan yr afon, yn sicr mae peth achos i bryderu ynglŷn ag effeithiau'r pwysau hwn.



Un o'r prif lwybrau newydd sydd wedi ei greu fel llwybr byr i gyrraedd rhaedrau Cwm Llan o Lwybr Watkin ar Yr Wyddfa.



Golygfa arall o'r ardal hon oddi uchod, yn dangos dau lwybr troed newydd drwy'r glaswelltir yn dod oddi ar Lwybr Watkin i gyrraedd gwahanol rannau o'r rhaedrau ar hyd Cwm Llan.

### Lledu llwybrau troed ac effeithiau ar gorhelyg ar y Garn

Fel y nodwyd hefyd yn 2021, mae'r llwybrau sy'n arwain i fyny'r Garn o Gwm Idwal yn 'gorlifo' yn gynyddol i gyfres blethedig o lwybrau ar ochr y mynydd. Mae hyn nid yn unig yn creu rhyw graith weledol ar y dirwedd, ond mae hefyd mewn perygl o effeithio ar y clytiau cyfyngedig o Helygen (*Salix herbacea*) sy'n tyfu ar hyd ochrau de-orllewinol ardal copa'r mynydd hwn. Prin fod y rhywogaeth helyg hon yn tyfu'n uwch na modfedd oddi ar y ddaear, ac mae pwysau pori yn ei llethu yma eisoes. Fodd bynnag, gallai ehangu'r llwybrau hyn hyn hefyd achosi difrod i boblogaethau'r rhywogaeth helyg ucheldirol brin hon yn Eryri a gellid ystyried opsiynau ymyrryd i godi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth hon a helpu i liniaru'r pwysau ychwanegol o ganlyniad i sathru.




Mae gan y llwybrau troed yn arwain i fyny Mynydd Moel uwchlaw Cwm Idwal (llun uchaf) y potensial i ymlledu fwyfwy tuag allan ac effeithio ar y cymunedau planhigion bregus Corrach Helygen / Corhelyg (*Salix herbacea*) ar hyd y llethrau hyn (y ddwy ddelwedd isaf), sy'n cymryd blynyddoedd lawer i sefydlu a thyfu'n araf iawn.



## Sbwriel

Ar y cyfan, datgelodd arolygon eleni ostyngiad mewn sbwriel o gymharu â'r cynnydd yn lefelau 2021 (gweler ffigurau 4 a 5 isod). Fodd bynnag, roedd cryn dipyn o sbwriel wedi'i gofnodi mewn nifer o'r safleoedd hyn, gyda chyfanswm o 267 o eitemau wedi'u canfod ar draws y trawsluniau yn y safleoedd ucheldirol. Unwaith eto canfuwyd mai'r Wyddfa a Dyffryn Ogwen oedd y gwaethaf o ran taflu sbwriel, gyda 176 a 59 o eitemau wedi'u cofnodi yn y drefn honno. O fewn y safleoedd hyn, canfuwyd bod copaon Yr Wyddfa a Thryfan ymhlith y mannau mwyaf poblogaidd o ran sbwriel. Gallai'r cyfansymiau ychydig yn is yn 2022 o gymharu â 2021 fod yn adlewyrchiad o lefelau is o sbwriel, fodd bynnag nodwyd hefyd ei bod yn debygol bod grwpiau fel *Caru Eryri*, gwirfoddolwyr *Parc Cenedlaethol Eryri* a grwpiau eraill megis *Llwybrau Di-sbwriel / Trash Free Trails* wedi cael effaith fawr ar draws yr ardaloedd hyn ac felly hefyd ar y niferoedd a gofnodwyd yn yr arolygon hyn. Mae partïon glanhau sbwriel rheolaidd gan y grwpiau hyn wedi rhoi llawer iawn o amser ac egni ar draws y tymhorau ymwelwyr i glirio ardaloedd poblogaidd a llwybrau troed. Rhaid dathlu gwaith o'r fath am ei effaith ar yr ardaloedd arbennig hyn o'r ucheldiroedd; fodd bynnag, mae hefyd yn datgelu bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr i atal y meddylfryd 'taflu i ffwrdd' sy'n arwain at faterion sbwriel o'r fath yn y lle cyntaf.




Ffigurau 4 (brig) a 5 (gwaelod). Mae Ffigur 4 yn dangos y nifer cyffredinol o eitemau sbwriel a ffigur 5 nifer y gwahanol fathau o sbwriel a ganfuwyd yn y pedwar safle arolwg gwahanol ar draws tair blynedd yr arolygon hyn: ar gyfer 2020 (llwyd tywyll), 2021 (llwyd) a 2022 (llwyd golau).



Potel blastig wedi'i thafu wrth ymyl Llwybr Rhyd Ddu ar Yr Wyddfa.

O ran y mathau o sbwriel, mae'r siart cylch yn ffigur 6 isod yn rhoi trosolwg o rai o'r eitemau mwyaf niferus a gofnodwyd yn ystod yr arolygon hyn. Roedd sigarêts a bonion sigarêts wedi'u taflu unwaith eto yn un o'r mathau mwyaf niferus o sbwriel a gofnodwyd (64 i gyd), ac yna pecynnau plastig a phapurau melysion (44), hancesi papur a hancesi papur gwlyb (41), eitemau organig (fel croen banana – cyfanswm o 26), darnau plastig caled (20), caniau tun (19) a photeli plastig (14).



Ffigur 6. Siart cylch yn dangos yr eitemau sbwriel mwyaf niferus a ddarganfuwyd ar draws yr ucheldiroedd yn arolygon 2022.

## Nodiadau eraill o'r arolygon

Nodwyd 'gweryslla anghyfreithlon' fel problem benodol yn dilyn codi'r cyfyngiadau symud yn 2020 a 2021, gyda nifer fawr o bobl yn gweryslla o amgylch safleoedd poblogaidd fel Cwm Idwal yn Nyffryn Ogwen, ac yn aml yn gadael llawer iawn o sbwriel, gwastraff a nwyddau ymolchi yn y fan a'r lle. Nodwyd 4 pabell yng Nghwm Idwal eleni sy'n awgrymu gostyngiad ond sy'n dal yn broblem ar dir GNG.




### 3.2. Iseldiroedd

#### Bywyd Adar


##### Niferoedd llai helaeth o adar

Roedd y niferoedd cyffredinol o adar ar draws y safleoedd arolwg tir isel yn llawer is nag yn 2020 a 2021, yn enwedig yn y ddau safle coetir (Coed y Brenin a Cheunant Llennyrch – gweler ffigur 7). Cyfanswm yr adar a gofnodwyd yn y ddau safle coetir hyn yn 2020 oedd 314 yng Nghoed y Brenin, a 360 yng Ngheunant Llennyrch. Yn cyferbynnu hynny, cofnododd arolygon 2022 dim ond 211 o adar yng Nghoed y Brenin a 205 yng Ngheunant Llennyrch ar hyd y trawsluniau. Nodwyd bod rhywogaethau bridio cyffredin fel y Titw Tomos Las a'r Titw Mawr, yn ogystal ag arbenigwyr coetir prinnach fel y Gwybedog Brith a Theloriaid y Coed, yn bresennol mewn niferoedd is a gyda llai o gywion bach nag a welwyd yn 2020 a 2021. Yn safle arolwg Niwbwrch ni welwyd yr un gostyngiad yn nifer yr adar, gyda chyfanswm tebyg o adar i'r blynyddoedd blaenorol yn cael eu cofnodi (gweler ffigur 7). Nid oedd amrywiaeth cyffredinol yr adar ( h.y. cyfanswm y rhywogaethau) ym mhob un o'r safleoedd arolwg yn wahanol iawn i'r blynyddoedd blaenorol; os rhywbeth, roedd yn fwy na'r hyn a gofnodwyd yn y cyfnod cloi yn 2020 (gweler ffigur 8). Mae'r gostyngiad yn niferoedd adar yn adlewyrchu'r canfyddiadau yn yr ucheldir o'r tymor hwn, a gallai'r rhesymau dros newidiadau o'r fath fod oherwydd nifer o wahanol ffactorau. Mae aflonyddwch gan bobl yn debygol o chwarae rhan fach iawn yn yr iseldir a'r safleoedd coediog a gwmpesir yn yr arolygon hyn, ac felly mae newidiadau

o'r fath yn fwy tebygol o adlewyrchu effeithiau ehangach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, gwahaniaethau o flwyddyn i flwyddyn mewn amodau tywydd a phwysau ar adegau eraill yn ystod cylchred bywyd blynyddol y rhywogaeth.



Ffigur 7. Cymhariaeth o nifer yr adar (h.y. nifer yr adar unigol a gofnodwyd) ar draws y tair blynedd o arolygon: 2020 (llwyd tywyll), 2021 (llwyd) a 2022 (llwyd golau).



Ffigur 8. Amrywiaeth yr adar a gofnodwyd ar draws y safleoedd tir isel ym mhob un o'r tair blynedd (mae 2020 yn llwyd tywyll, 2021 yn llwyd a 2022 yn llwyd golau).

### **Aflonyddu ar adar y glannau sy'n nythu yng nghyffiniau Ynys Llanddwyn**

Un o'r safleoedd allweddol lle'r oedd aflonyddwch gan ymwelwyr i'w weld yn broblem bosibl i adar sy'n magu oedd o gwmpas safle poblogaidd Ynys Llanddwyn yn Niwbwrch . Mae nifer o adar y glannau yn nythu o amgylch arfordir yr ynys lanwol hon, gan gynnwys Piod y Môr ac un neu ddau bâr o Gwtiaid Torchog. Fodd bynnag, mae'r ddwy rywogaeth hon yn dueddol o gael eu hafllonyddu gan bobl, ac mae'r nythod eu hunain yn agored iawn i gael eu sathru os na chymerir gofal. Codwyd y mater hwn yn adroddiad 2021, ar ôl i bâr o Gwtiaid Torchog gael eu gweld yn nythu ger Twr Mawr yn 2020 ond roeddent yn absennol yn nhyrnor prysurach 2021. Roedd yn gadarnhaol gweld dwy ran o ffensys trydan wedi'u codi o amgylch ardaloedd bridio posibl ar gyfer Cwtiaid Torchog yn ystod tymor bridio 2022 (gweler y lluniau isod). Yn wir, gwelwyd adar ym mhob un o'r caeau hyn, er oherwydd natur gryno'r arolwg hwn nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd yr adar yn llwyddiannus ai peidio yn eu hymgais i fridio. Mae'n symudiad gwych i'r cyfeiriad cywir o ran llai o aflonyddu ar yr adar glannau sensitif hyn yn ystod y cyfnod nythu allweddol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod nifer o gŵn oddi ar dennyn yn bresennol ar Ynys Llanddwyn a'r traethau cyfagos yn ystod yr ymweliad arolwg byr yn 2022. Gallai'r aflonyddwch a achosir gan gŵn yn rhedeg o amgylch yr ardaloedd arfordirol hyn amharu'n andwyol ar adar y glannau sy'n ceisio bridio yma, yn ogystal â'r holl adar eraill sy'n nythu ar y ddaear ar yr ynys. Byddai mwy o ymgysylltu a rhagor o arwyddion dehongli i hysbysu ymwelwyr o bwysigrwydd cadw cŵn ar dennyn yn help mawr gyda'r mater hwn.



Un o'r darnau o ffensys trydan sydd wedi'i osod yn ei le ar Ynys Llanddwyn i helpu i warchod ardaloedd nythu'r Cwtiaid Torchog.

### **Aflonyddu ar adar o ganlyniad i gychod dŵr hamdden**

Mater arall o darfu ar adar ar hyd yr ardaloedd arfordirol a nodwyd yn ystod arolygon 2022 yw effaith y defnydd cynyddol o gychod dŵr hamdden ar hyd yr arfordir a'i effaith bosibl ar adar bridio, clwydo a bwydo (yn ogystal â mamaliaid morol). Mae cychod hamdden, rhai modurol (fel jet sgis) a rhai nad ydynt yn rhai modur (yn arbennig, byrddau padlo wrth sefyll, 'SUPs'), yn cael eu defnyddio'n llawer mwy cyffredin ar draws yr arfordir mewn rhai ardaloedd ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu codi yn 2020 a llai o allu i bobl deithio dramor. Mae jet sgis wedi'u nodi fel problem benodol ar draws arfordir Ynys Môn yn ystod 2021 a 2022, gyda chytrefi adar môr sensitif wedi'u hafllonyddu a rhai adar hyd yn oed yn cael eu lladd gan ddefnydd anghyfrifol o'r cychod dŵr hyn. Mae'r ffrwydrad

diweddar yn y defnydd o 'SUPs' gan ddefnyddwyr dŵr hamdden hefyd wedi darparu her newydd ar gyfer asesu sut y gallai defnydd eang o'r mathau hyn o gychod ar hyd yr arfordir effeithio ar rywogaethau o adar y glannau sy'n aml yn dibynnu ar gyfnodau tawel i orffwys a bwydo.

## Llystyfiant

Ar y cyfan, ychydig o wahaniaethau amlwg oedd yng nghasgliadau llystyfiant yn 2022 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, nodwyd un neu ddau o safleoedd allweddol lle gallai mwy o sathru a gwisgo'r tir oherwydd niferoedd uwch o ymwelwyr fod yn cael effaith ar rai o'r cymunedau llystyfiant.

### **Effeithiau cerdded ceunentydd yng Ngheunant Llennyrch**

Yng Ngheunant Llennyrch, roedd tystiolaeth bod y defnydd o lwybrau ac ochrau ceunant wrth ymyl yr afon yn cael effaith ar y cymunedau cain o fwsogl a rhedyn a fflora'r coetir mewn rhai ardaloedd. Ni chafodd y mater penodol hwn ei ystyried wrth gynllunio'r gwaith arolwg yn wreiddiol, ac felly nid oes data i fesur nac asesu i ba raddau y gallai gweithgareddau cerdded ceunentydd fod yn effeithio ar y safleoedd hyn. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael arolwg penodol o'r maes hwn i helpu i lywio unrhyw fesurau lliniaru y gellid eu cymryd.

### **Sathru ac erydiad ar olygfannau poblogaidd Ynys Llanddwyn**


Mater arall yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn y cyfyngiadau symud 2020 yw'r erydiad a sathru ar gymunedau amrywiol o llystyfiant arfordirol mewn nifer o fannau penodol o amgylch Ynys Llanddwyn. Mae'n ymddangos bod nifer sylweddol o bobl wedi ymweld â rhai golygfannau, yn aml yn boblogaidd fel safleoedd ar gyfer tynnu lluniau o dirwedd Ynys Llanddwyn o amgylch. Er enghraifft, mae'r penrhyn creigiog tua blaen Ynys Llanddwyn, yn edrych dros Twr Mawr, wedi gweld llawer o ddefnydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan arwain at ddirywiad y cymunedau llystyfiant bregus ac erydiad y priddoedd tywodlyd gwaelodol yma. Mae'r llun isod yn amlinellu enghraifft o un safle o'r fath ar hyd arfordir yr ynys sydd yn profi'r broblem hon.




Golygfan yn edrych dros Twr Mawr, ym mhen draw Ynys Llanddwyn, lle mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr wedi effeithio ar y llystyfiant a'r tir yn y fan hon.

## Sbwriel

Er nad yw mor ddifrifol ag yn yr ucheldir, canfuwyd eto bod sbwriel yn broblem yn rhai o'r safleoedd iseldir a arolygwyd yn 2022. Lefelau isel iawn o sbwriel a welwyd yng Ngheunant Llennyrch a Choed y Brenin, er bod yr olaf yn safle poblogaidd iawn i ymwelwyr drwy'r flwyddyn; yn cyferbynnu hynny, cofnododd Niwbwrch dros 75 o eitemau ar draws y safle, gan gynnwys 29 eitem o amgylch Ynys Llanddwyn a 38 eitem yn ardal 'maes parcio'r traeth'. Mae'r nifer hwn yn debyg i'r hyn a gafwyd yn 2021 (gweler ffigur 9 isod) ond mae'n dal yn sylweddol uwch na'r lefelau isel iawn o sbwriel a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud yn 2020. O ran nifer y gwahanol eitemau o sbwriel a ddarganfuwyd ar y gwahanol safleoedd, roedd cynnydd yn yr amrywiaeth o'r sbwriel hwn yn 2022 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol (gweler ffigur 10). Canfuwyd mai dyma'r achos yn bennaf yn Niwbwrch, gydag amrywiaeth lai o fathau o sbwriel wedi'u cofnodi yn y ddau safle coetir mewndirol o gymharu â 2021 (gweler ffigur 10).




Ffigur 9. Cyfansymiau ar gyfer helaethrwydd sbwriel ar draws y tri safle arolwg tir isel yn 2020 (llwyd tywyll), 2021 (llwyd) a 2022 (llwyd ysgafnach).



Ffigur 10. Cyfansymiau ar gyfer nifer y mathau o sbwriel a gofnodwyd ar draws y tri safle arolwg tir isel yn 2020 (llwyd tywyll), 2021 (llwyd) a 2022 (llwyd ysgafnach).

O ran cyfansoddiad y sbwriel a gofnodwyd ar y safleoedd tir isel yn 2022, yr eitemau mwyaf niferus oedd pecynnau plastig, bagiau plastig a phapurau melysion (36 yn gyffredinol). Eitemau niferus eraill oedd hancesi papur misglwyf a hancesi gwlyb (16 eitem i gyd), bagiau baw ci (chwech) a photeli plastig (pedwar). Mae'r categori 'arall' yn ffigur 11 isod yn cynnwys eitemau fel topiau poteli, bonion sigarêts, mygydau wyneb, darnau polystyren a gwellt plastig.



Ffigur 11. Trosolwg o'r mathau mwyaf niferus o sbwriel a gofnodwyd ar draws y safleoedd arolwg tir isel yn ystod arolygon 2022.

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i nifer o bobl a gynorthwyodd gyda'r arolygon maes ar gyfer gwaith ymchwil 2022, a hefyd y rhai a roddodd gyngor ehangach i lywio'r arolygon, gan gynnwys Jo Porter, Steve Porter, Dani Robertson, Nigel Brown, Stephen Hinde, Malcolm Davies, Iago Thomas a Catrin Glyn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r gwahanol dirfeddianwyr ar draws ardaloedd yr arolwg a gytunodd i roi mynediad i'r safleoedd hyn er mwyn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud.